Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales

PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

**Deuddegfed Cyfarfod Cadeiryddion Grwpiau PBC**
**Ffocws: Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**

**15 Gorffennaf 2014, IBERS, Prifysgol Aberystwyth**

**Yn bresennol:**
Dai Harris (Cadeirydd)
David Shiel, AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Stephen Bladwell, RSPB (Cadeirydd Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau)
Charles Morgan, RSPB (Cadeirydd Grŵp Ecosystemau'r Ucheldir)
Jan Sherry, CNC (Cyd-gadeirydd Grŵp Ecosystem Rhostir a Glaswelltir yr Iseldir a Chynrychiolydd y Grŵp Ecosystemau Dinesig a Thir Llwyd)
Chris Tucker, CNC (Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Coetir)
Pete Jones, CNC (Cadeirydd Grŵp Ecosystemau'r Gwlyptir)
Clare Burrows, CNC (Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Ffermdir Amgaeëdig)
Heather Lewis, CNC (Cynrychiolydd y Grŵp Ecosystemau Arfordirol)
Tracey Lovering, CNC/PBC (Cydgysylltydd Cadeiryddion Grwpiau PBC/Arweinydd Prosiect Bylchau Tystiolaeth PBC)
Kathleen Carroll, Llywodraeth Cymru (Cynrychiolydd y Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol)

**Ymddiheuriadau:**

Gill Bell, MCS (Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Morol)
Tristan Hatton-Ellis, CNC (Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Dŵr Croyw)
Pete Frost (Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Dinesig)

**DEUDDEGFED CYFARFOD CADEIRYDDION GRWPIAU PBC - CAMAU GWEITHREDU DRAFFT**

| Rhif | Cam Gweithredu | Pwy | Erbyn |
|---|---|---|---|
| **Camau gweithredu newydd 15 Gorffennaf 2014** | | | |
| 1.1 | Dai i sicrhau bod Cadeiryddion Grwpiau PBC yn cael papurau Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru (BSBC) cyn pob un o gyfarfodydd BSBC. | **Dai Harris** | **Cyn cyfarfod nesaf BSBC** |
| 1.2 | Grwpiau cynghori PBC i roi sylwadau/cyngor i Caryn le Roux, ar ôl cael papurau cyfarfodydd BSBC. | **Cadeiryddion PBC** | |
| 1.3 | Caryn i godi sylwadau/cyngor Cadeiryddion Grwpiau PBC yng nghyfarfod BSBC. | **Caryn Le Roux** | |
| 2. | Dai i rannu gwybodaeth am Weithdai Cydnerthedd sydd i ddod â holl Gadeiryddion PBC. | **DH** | **pan fydd y wybodaeth ar gael** |
| 3. | Chris i ddosbarthu Rhestr Coedwigoedd Cenedlaethol 2011 a'r adroddiad ar Fioamrywiaeth Ynn i David Shiel a | **Chris Tucker** | **29 Gorffennaf** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Chadeiryddion Grwpiau PBC | | |
| 4 | Charles a David i ddatblygu cais am arian o dan y Cynnig Prosiect Bugeilio Agos ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. | **Charles Morgan/David Shiel** | **cyn gynted â phosibl er mwyn ei gyflwyno i Gronfa Natur Llywodraeth Cymru** |
| 5.1<br><br>5.2. | Pete i ddosbarthu'r protocol ar gyfer arolygu mawn dwfn i Gadeiryddion PBC a DS<br><br>Pete i roi cyngor rheoli i David Shiel ar y canlynol:<br>• Ffynhonnau twffa (Dyffryn Chwiler)<br>• Mawndir yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy | **Pete Jones**<br><br>**PJ** | **29 Gorffennaf**<br><br>**4 Awst?** |
| 6. | Y Grŵp Ecosystemau Dŵr Croyw i roi cyngor ar reoli bioamrywiaeth dŵr croyw mewn perthynas â Dyffrynnoedd Afonydd Chwiler ac Alyn yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Anfon at David Shiel. | **Tristan Hatton-Ellis** | **4 Awst?** |
| 7. | Stephen i anfon canllawiau at DS mewn perthynas â'r canlynol:<br>• Canllawiau ar dargedu gweithgareddau rheoli yn ofodol ar gyfer rhywogaethau coetir â blaenoriaeth<br>• Gwybodaeth RSPB am Ardaloedd Natur Pwysig mewn Coetiroedd<br>• Gwybodaeth amlinellol am gais LIFE Coetir yr Iwerydd RSPB. | **Stephen Bladwell** | **29 Gorffennaf** |
| 8. | Jan i anfon y canlynol at David Shiel:<br>• Haenen GIS ar Adar yr Ucheldir (Ardaloedd Adar Pwysig)<br>• Gwybodaeth am ymchwil i weirgloddiau. | **Jan Sherry** | **29 Gorffennaf - Cwblhau** |
| 9. | Clare i anfon y canlynol at David Shiel:<br>• Papur Fridd CNC<br>• Map Fridd GIS | **Clare Burrows** | **29 Gorffennaf** |
| 10. | Pob Cadeirydd i anfon diweddariadau Grwpiau PBC at Tracey i'w lanlwytho i dudalen y Cadeiryddion ar wefan PBC ac er gwybodaeth i BSBC. | **Cadeiryddion PBC (os nad ydynt wedi gwneud hynny yn barod)** | **29 Gorffennaf** |
| 11.1<br><br>11.2<br><br>11.3 | Tracey i ddosbarthu Cyflwyniad Bylchau Tystiolaeth PBC<br><br>Tracey i ailddosbarthu camau gweithredu i Gadeiryddion/Grwpiau PBC o ddigwyddiad lansio'r Prosiect Bylchau Tystiolaeth.<br><br>Cadeiryddion Grwpiau PBC i annog aelodau eu grwpiau i ymuno â Fforwm Prosiect Bylchau Tystiolaeth PBC ar Linked-in, er mwyn hyrwyddo trafodaeth ar-lein ynglŷn â ffyrdd posibl o gau bylchau tystiolaeth y grŵp a chasglu gwybodaeth/arbenigedd sy'n bodoli eisoes mewn | **Tracey Lovering**<br>**TL**<br><br>**Cadeiryddion holl Grwpiau PBC** | **29 Gorffennaf**<br>**29 Gorffennaf**<br><br>**29 Gorffennaf** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | perthynas â'r rhain. | | |
| 11.4 | Cadeiryddion Grwpiau PBC i ystyried sylwadau/cysylltiadau/gwybodaeth a ddarparwyd gan dîm y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg a Mike Bruford yn erbyn pob un o fylchau tystiolaeth y grŵp gyda'u grwpiau drwy e-bost. Grwpiau i fynd ar drywydd unrhyw awgrymiadau / cysylltiadau a ddarparwyd. Diwygio'r bwlch tystiolaeth a gwybodaeth gysylltiedig pan fo hynny'n briodol. | **Cadeiryddion holl Grwpiau PBC** | **Adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf y Cadeiryddion - Hydref 2014** |
| 11.5 | Cadeiryddion Grwpiau PBC i gysylltu'n uniongyrchol â'r academyddion ar eu rhestrau i'w hannog i gymryd rhan mewn gwaith grŵp e.e. gofyn i academydd roi eitem ar yr agenda ar ei faes arbenigol, ac annog academydd i arwain eitem sefydlog y grŵp ar fylchau tystiolaeth. | **Cadeiryddion holl Grwpiau PBC** | **Yng nghyfarfod nesaf Grŵp PBC** |
| 12 | Clare i gysylltu ag Angus Garbutt i holi a fyddai'n barod i ymuno â'r Grŵp Ecosystemau Ffermdir Amgaeëdig fel rheolwr Arolwg Monitro Glastir y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg. | **Clare** | **4 Awst?** |
| 13 | Tracey i roi manylion cyswllt arweinydd Tîm Bioamrywiaeth Gwynedd ac AHNE Llŷn i Pete | **TL** | **29 Gorffennaf** |
| 14 | Pob Cadeirydd i anfon syniadau ynglŷn â chynnwys gweithdai arfaethedig Prosiect Bylchau Tystiolaeth PBC a'u lleoliad -<br><br>1. Morol/arfordirol/rhywogaethau estron goresgynnol;<br>2. Ucheldir/Glaswelltir a rhostir/Coetir/Rhywogaethau estron goresgynnol a rhywogaethau<br>3. Dinesig a Thir Llwyd/Ffermdir Amgaeëdig/Rhywogaethau estron goresgynnol | **Cadeiryddion holl Grwpiau PBC** | **29 Gorffennaf** |
| 15.1 | Tracey i drefnu bod cyfarfod nesaf Cadeiryddion PBC yn canolbwyntio ar Lŷn, i'w gynnal gyda Phartneriaeth Tirlun Llŷn/Tîm Bioamrywiaeth ac AHNE ym mis Hydref 2014. Gwahodd David Cowley a Steve Roberts o CS Ynys Môn i rannu'r hyn a ddysgwyd o Brosiect Mawndir Môn. | **TL** | **11 Awst** |
| 15.2 | Tracey i anfon doodlepoll er mwyn trefnu dyddiad y cyfarfod nesaf | **TL** | **11 Awst** |
| | **Camau gweithredu a ddygwyd ymlaen o gyfarfod mis Chwefror** | | |
| 16 (1.) | Matthew i siarad â Graham am gydberthynas MEG ac Is-adran Morol a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol | **Matthew** | **7 Mawrth** |
| 17. (3.) | Grwpiau PBC i gefnogi'r agwedd dechnegol ar dri o brosiectau peilot CNC, gan gynnwys y Dyfi. Cysylltu â: Patrick Green | **Holl Gadeiryddion/ Grwpiau PBC** | **Yn barhaus, fel y bo angen** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18 (4.) | Matthew i drafod â Ceri a all CNC ailgyflwyno swydd Ecolegydd Ucheldir. | **Matthew** | |
| 19 (5.) | Diweddaru manylion aelodau'r Grwpiau<br>Anfon at Gemma Light[1] ac anfon copi at TL[2] | **Cadeiryddion holl Grwpiau PBC** | |
| 20 (7.) | Pob Cadeirydd i rannu adborth ar y tabl bylchau tystiolaeth gyda'u Grwpiau, a:<br>1) rhoi sylw i'r sylwadau a'r wybodaeth ddilynol/cysylltiadau a ddarparwyd gan yr Athro Mike Bruford (Gweler colofnau I.J.K yn y *Gofrestr Bylchau Tystiolaeth* Fersiwn 2 Tachwedd sy'n atodedig. Noder yr hen fersiwn o'r Gofrestr. Mae'r fersiwn ddiweddaraf ar gael ar y wefan). Efallai y bydd angen:<br>• trafodaethau newydd ynglŷn â bylchau penodol gyda chysylltiadau newydd defnyddiol ag ymchwilwyr/adrannau;<br>• ailysgrifennu'r cwestiwn yn sgil tystiolaeth/papurau presennol y mae'r bwlch yn arwain atynt yn ôl Mike;<br>• ailysgrifennu'r cwestiwn fel y bo angen (os yw'n addas i ymchwil) gan ddilyn y canllawiau ar *Ysgrifennu cwestiynau ar gyfer ymchwil* ar dudalen we'r Prosiect uchod.<br>• rhannu bwlch mawr yn is-gwestiynau a all weddu i brosiectau unigol cysylltiedig.<br><br>2) gweithio gyda'ch Grŵp i nodi'r bylchau tystiolaeth â blaenoriaeth a lliwio'r rhain yn briodol yn y gofrestr bylchau tystiolaeth (coch=uchel, oren=canolig, melyn=isel).<br><br>3) cytuno ar arweinydd prosiect ymchwil eich Grŵp ar gyfer pob bwlch tystiolaeth â blaenoriaeth uchel (addas i ymchwil); arweinydd i ddatblygu a chyflwyno Cynnig Prosiect cyflawn ar gyfer pob prosiect ymchwil i TL[2] | **Cadeiryddion holl Grwpiau PBC** | |
| 21 (8.) | Pob Cadeirydd i sicrhau bod tudalennau ei Grŵp ar wefan PBC[3] yn cael eu diweddaru a'u bod yn cynnwys rhestr o aelodau'r Grŵp, agendâu cyfarfodydd, camau gweithredu, rhaglenni gwaith, prosiectau gan gynnwys prosiectau a ariennir gan y Gronfa Ecosystemau Gwydn, mapiau â blaenoriaeth, manylion cyswllt a dolenni defnyddiol.<br>Anfon y diweddariadau i dudalennau at Sean McHugh[4]. | **Cadeiryddion holl Grwpiau PBC** | |
| **Camau gweithredu parhaus** | | | |
| 22 | Gan ddefnyddio'r Cynllunydd Gweithdai Mapio â Blaenoriaeth, dylai Cadeiryddion sicrhau bod eu Grwpiau yn ychwanegu gweithdai sydd i'w cynnal a chamau gweithredu o weithdai blaenorol (anfon at Sean McHugh i'w cynnwys ar wefan PBC). Stephen Bladwell a Sean McHugh i rannu'r Cynllunydd â'r Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau er mwyn | **Cadeiryddion holl Grwpiau PBC** | **Parhaus** |

[1] Gemma.Light@Wales.GSI.Gov.UK
[2] Tracey.Lovering@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
[3] www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Ecosystems--Species-Expert-Groups
[4] smchugh@wtwales.org

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hwyluso presenoldeb cynrychiolwyr y Grŵp yn y digwyddiadau hyn. | | |
| 23. | Pob Cadeirydd i anfon Diweddariadau'r Grwpiau a ddarparir yng nghyfarfod y Cadeiryddion at Tracey Lovering fel y gellir eu cynnwys ar wefan PBC ynghyd ag agenda a chamau gweithredu'r cyfarfod. | **Cadeiryddion holl Grwpiau PBC** | **Parhaus** |
| 24. | Pob Grŵp Ecosystem i edrych unwaith eto ar y Mapiau Ardaloedd Gweithredu â Blaenoriaeth a data cysylltiedig. Cadeiryddion neu arweinyddion dirprwyedig i gasglu unrhyw newidiadau a darparu mapiau GIS diwygiedig terfynol a chamau gweithredu cysylltiedig i Jan Sherry | **Cadeiryddion holl Grwpiau PBC** | **Parhaus** |

Tracey Lovering
Cydgysylltydd Cadeiryddion Grwpiau PBC
16/07/14
Tracey.Lovering@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk